


*Giuseppe Garibaldi, 1807-82. Ymwelodd â Phrydain yn 1864 ac yntau yn ei anterth. Ffolodd pawb arno a daeth bisgedi Garibaldi a blowsus Garibaldi yn boblogaidd ar unwaith.*



*Giuseppe Mazzini, 1805-72. Daw'r llun yma o Mazzini oddi ar glawr y gyfrol* Mazzini: cenedlaetholwr, gweledydd, gwleidydd, *gan D. J. Williams, Abergwaun, a gyhoeddwyd gan Blaid Cymru yn 1948. Lluniwyd y llun a chlawr y gyfrol gan Dewi Prys Thomas.*

cyfiawnder yn y llysoedd barn, yn gwrthwynebu degwm i gefnogi eglwys y landlordiaid a oedd yn gwrthod codi llais yn erbyn gorthrwm ac yn fodlon ar Seisnigrwydd y litwrgi. Yn hyn o beth yr oedd Gwilym Hiraethog yn cytuno â'r Siartwyr a Beca: anghytunai â'u dulliau i gario allan y rhaglen. Ffordd ddi-drais y Crist oedd y ffordd i Gwilym Hiraethog, nid ffordd grym, gormes, llabyddio a lladd. Yr oedd gwleidyddiaeth Gwilym Hiraethog wedi ei sylfaenu ar egwyddorion sylfaenol y Testament Newydd. Ofni Duw a pharch i gyd-ddyn, dyma'r cymhelliad oedd y tu ôl i'w grwsâd a'i ymgyrchoedd. Ac fe fu'r gŵr hwn yn ddylanwadol iawn yn mowldio ymwybyddiaeth pobl Cymru, yn paratoi Cymru i fod yn perthyn yn annatod i'r chwith yng ngwleidyddiaeth Prydain. Nid un person sy'n gyfrifol am hyn ond llawer un, fel S.R., R. J. Derfel, Pan Jones, T. E. Nicholas, David Thomas, David Lloyd George, S. O. Davies, Teulu Llandinam, James Griffiths, Goronwy O. Roberts, Aneurin Bevan, Huw T. Edwards, D. J. Davies, Lewis Valentine, a channoedd a channoedd o lowyr, chwarelwyr, gweision ffermydd, gweithwyr dur ac alcan, athrawon, gweinidogion, meddygon, newyddiadurwyr, gwragedd tŷ a mamau a fu wrthi dros y can mlynedd diwethaf yn ein cyflyru a'n nerthu i wneud ein rhan dros Gymru ac am gymdogaeth dda a byd gwell.

Ac eto mae'n amheus a fyddai Gwilym Hiraethog yn gwbl hapus gyda'n teyrnged iddo. Byddai'n well ganddo ef i'r haneswyr ei gyfrif fel bardd mawr a phregethwr grymus, pregethwr arbennig iawn, o'r tro cyntaf iddo bregethu yn llofft y Red Lion yn Llansannan lle yr oedd Ishmael Jones, Rhosllannerchrugog yn cadw ysgol. Ar ôl deng munud fe aeth hi'n dywyll ar Gwilym Hiraethog a phan oedd o ar fin rhoddi'r gorau iddi, dyma Ishmael Jones yn codi ei lais, 'Dos ymlaen, Wil, yr wyt ti'n dechrau yn ardderchog'. Rhoddodd hwb i Gwilym Hiraethog i ailgydio yn ei genadwri. Ond mewn deng munud arall aeth hi'n niwl arno wedyn, pryd y gwaeddodd Ishamel, 'Dos ymlaen, Wil, yr wyt ti'n pregethu'n ardderchog, wir'. Ailgydiodd Gwilym Hiraethog ynddi eto. Tystiai clochydd Llansannan fod y bregeth gyntaf honno gystal ag un a glywodd ganddo wedyn.

Patrymodd ei hun ar Williams o'r Wern, gŵr a gychwynnodd draddodiad arbennig o bregethu ymysg enwad yr Annibynwyr. Teithiai pobl o bell i wrando arno. Sonia'r Parchedig D. S. Jones, Chwilog, amdano'n llanc yn byw ym Mhenmaenmawr ac yn teithio i gapel William Rees yn Lerpwl. Cyrraedd Lerpwl a gofyn i heddgeidwad am y ffordd i gapel ein gwron. Rhag ei gywilydd, ni wyddai. Ond pwy welodd D. S. Jones yn dod at y cwch i groesi'r afon i Benbedw ond y Parchedig John Evans, Eglwys-bach, un o bregethwyr grymusaf y Wesleaid. Rhedodd ato a dweud ei stori. Nid oedd William Rees yn ei gapel ei hun, felly aeth D. S. Jones i wrando ar John Evans a chael gwledd. Ond fe ddaeth yn ôl yr eildro i Lerpwl a chael cyfle i wrando ar William Rees yn traethu gydag arddeliad. 'Roedd ei berorasiwn angerddol ar y Dyn Crist Iesu yn gofiadwy.' Roedd D. S. Jones yn barod y noson honno i gerdded adref yr holl ffordd o Lerpwl i Benmaenmawr ar ôl clywed y fath draddodi eneiniedig ar yr Efengyl.

Yr oedd Gwilym Hiraethog nid yn unig yn bregethwr mawr ond hefyd yn galon dyner. Sonia Kilsby Jones am Henry Rees a William Rees yn mynd yn eu tro i weld chwaer iddynt a oedd yn byw yn Ninbych. Pan ymwelai Henry â hi, dywedai: 'Wel, chwaer annwyl, sut yr ydych? Sut mae yr hen gyfamod yn dal? A ydyw'n goleuo arnoch fel yr ydych yn heneiddio?' Ac wrth ymadael, meddai Kilsby, gosodai 'hen swllt yn ei llaw'. Ond pan ymwelai William â hi ni siaradai air am yr hen gyfamod na dim o'r fath, sef y siarad duwiol, ond wrth ymadael gosododd sofren felen yn llaw ei chwaer.

Derbyniodd William Rees lawer o anrhydeddau, sef Cadair Undeb yr Annibynwyr pan draddododd anerchiad ar Satan; dwy radd er anrhydedd o'r Unol Daleithiau a medal gyntaf Cymdeithas y Cymmrodorion, ond bu farw cyn iddo ei derbyn. Cafodd dysteb o £700 gan ei gyd-Gymru. Cwynai Kilsby i'r Cymry fod yn grintachlyd: 'Nid saith gant ddylai fod ond saith mil o bunnau'. Ond yr oedd y saith cant hwnnw yn werth saith mil heddiw, a pha fardd-bregethwr a gai swm felly ym 1995?

Bu farw ar 8 Tachwedd 1883 yng Nghaer — aethai i fyw i'r ddinas honno ar ôl ymddeol a gadael Lerpwl ym 1875 — ac ar ddiwrnod ei angladd teithiodd cannoedd o Gaer gyda'r trên ar ôl gwasanaeth yn Albion Park er mwyn cyrraedd Mynwent Smithdown Road. Pan glywodd y Prif Weinidog, W. E. Gladstone, am ei farw soniodd am ei wasanaeth a bod bywyd ymroddedig o'r fath yn sicr o adael dylanwad mawr ar ei ôl. Nid yw Cymru wedi ymddihatru yn llwyr eto o gyfaredd a grym a dylanwad William Rees, ac ni wnaiff tra parhawn i gofio'r difreintiedig ac i ganu am Gariad Crist.